# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Anne Lloyd-Jones** **Grŵp: Annibynnol**

**Ward: Tywyn**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Cynrychioli buddiannau'r gymuned yng Nghyngor Gwynedd.
Aelod o'r:
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi

**Gweithgareddau etholaethol:**

Fel Is-gadeirydd Pwyllgor Cronfa Apêl yr Ysbyty rwy'n gweithio gyda grŵp prosiect y Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith ar y buddsoddiad o dros £5 miliwn ar ganolfan gofal sylfaenol newydd a ward gyda 16 gwely yn Ysbyty Tywyn yn mynd ymlaen fel y cynlluniwyd. Dylai fod wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2015. Mynychais ymweliad safle gyda Dr Peter Higson, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ogystal â Chadeirydd y Gronfa Apêl.

Disgwylir i'r Uned Pelydr-x newydd yn Ysbyty Tywyn, a dderbynodd dros £100,000 gan y Gronfa Apêl, agor yng nghanol Haf 2015.

Fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Penybryn, rwyf wrth fy modd bod y buddsoddiad o £1.8 miliwn y llynedd tuag at neuadd newydd ac uwchraddio dosbarthiadau wedi gwneud gwahaniaeth mawr i amgylchedd dysgu'r ysgol.

Yn ystod y flwyddyn cefais nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, Dafydd Elis Thomas, AC ac Elfyn Llwyd AS, ynghylch materion etholaethol.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Mynychu cyfarfodydd misol y Cyngor Tref, a'r is-gyfarfodydd amrywiol. Fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ynysmaengwyn, fe wnaethom ennill Baner Werdd i'r Parc unwaith eto eleni, ac rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y coetir.

Rwyf wedi bod yn Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989. Rydym ni fel grŵp wedi casglu dros £2,000 eleni trwy gynnal digwyddiadau amrywiol i'r Elusen.

Fel Cadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru ers 2001, mae gen i gyfarfodydd rheolaidd gyda gwleidyddion a'r Tîm Croeso Cymru, er mwyn sicrhau fod yr holl ardal yn elwa'n ariannol o dwristiaeth. Yn ddiweddar, ymunodd Ken Skates AC, y dirprwy Weinidog â ni yn ein Cynhadledd Flynyddol, a rhoddodd y brif araith.

Rwyf wedi cynrychioli Twristiaeth Canolbarth Cymru ar CAE, panel Amgylchedd Parc Cenedlaethol Eryri ers ei sefydlu, ac rwy'n hapus i weld sut mae'r grantiau yr ydym wedi'u gwobrwyo wedi gwneud gwahaniaeth.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi cadeirio cyfarfodydd Fforwm Ardal Meirionnydd. Cynhaliwyd y cyfarfodydd mewn ardaloedd gwahanol yn yr hen sir. Profodd y cyfarfodydd i fod yn boblogaidd ac yn addysgiadol.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 3 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 1 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 |
| Pwyllgor Cynllunio | 14 |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | 2 |
| Fforwm Ardal Meirionnydd | 4 |

Canran Presenoldeb: 94%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**

Methais un cyfarfod Cyngor am fy mod i ar wyliau blynyddol.

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Gweithdy Arbedion

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**

Cartrefi Cymunedol Gwynedd.
Ysgol Penybryn (Llywodraethwr)
Ysgol Uwchradd Tywyn (Llywodraethwr)

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**

Cronfa Addysg Dr Williams
Cynhadledd Cyswllt Arfordir y Cambrian
Cyfarfodydd rheilffyrdd ar y cyd rhwng yr Amwythig, Aberystwyth ac Arfordir y Cambrian
Partneriaeth Tywyn
Cynhadledd Tai Cymru Gyfan.

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Llywodraethu Effeithiol | 9/4/2014 |
| Strategaeth Wastraff | 7/5/2014 |
| Trefniadau Pwyllgor | 29/7/2014 |
| Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol | 17/9/2014 |
| Arwain Cymunedau trwy Newid | 24/10/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 19/11/2014 |
| Hyfforddiant i Aelodau ac Eilyddion o'r Pwyllgor Cynllunio | 26/11/2014 |
| Gwe-Ddarlledu | 26/11/2014 |
| Hyfforddiant Pellach ar We-Ddarlledu i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion | 12/1/2015 |
| Categoreiddio Ysgolion – Y Drefn Newydd | 14/1/2015 |

| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Hyfforddiant Cynllunio | 15/5/2014 |
| Darllen yn Gyflym | 2/7/2014 |
| Pendantrwydd a Delio gyda Phobl Anodd | 20/3/2015 |

Cyfanswm nifer o oriau: 42 awr